

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Mawrth 2019
am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,
Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd S Powell Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

222 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn
â'r agenda.

**223 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar
faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau
y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i
Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu
mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i
hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

224 DEDDF LLESIAINT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy
yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n
anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu
cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

225 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018 yn rhai cywir.

226 CAIS: 18/0374

Gwaith arfaethedig i adeiladu 6 thŷ teras 2 ystafell wely, lle parcio a ffordd breifat (manylion diwygiedig a chynllun lleoliad y safle wedi'u cyflwyno 11/12/2018), tir y tu ôl i 16 i 32 Stryd yr Orsedd, Aberpennar.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

(**Nodwch:** Ar y pwynt hwn, ymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo â'r cyfarfod ac felly ni wnaeth arfer ei hawl i bleidleisio)

(**Nodwch:** Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a J. Williams am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod)

227 CAIS: 18/1084

Datblygiad preswyl (Amlinellol), tir gwag ar Stryd Corbett, Treherbert.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais am ganiatâd cynllunio amlinellol i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

228 CAIS: 18/1086

Datblygiad preswyl (Amlinellol), tir wrth fynedfa Hendre Gwilym, Pen-y-graig, Tonypany.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais am ganiatâd cynllunio amlinellol i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

229 CAIS: 18/1393

Adeilad un-llawr ar wahân â 7 bae, ar gyfer dosbarth meithrin i 30 o ddisgyblion, gyda chyfleusterau tŷ bach i ddisgyblion. Llwybr mynediad newydd i gerddwyr wedi'i ddiogelu gan folardiau symudol gyda chloeon er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau brys i'r meithrin. Rhagor o leoedd parcio ceir yn y man gollwng a chasglu ar gyfer bysiau er mwyn creu lle ar gyfer tri thacsi a 12 car ychwanegol, Ysgol Llanhari, Rhodfa Addison, Llanhari, Pont-y-clun.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor gan roi gwybod

i Aelodau am y diwygiadau canlynol i'r adroddiad:

- Tudalen 57 – Egwyddor y datblygiad arfaethedig – mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'hen' safle'r ysgol ond dylai gyfeirio at safle 'cyfredol' yr ysgol.

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

230 CAIS: 18/1388

Bwriad i newid defnydd darn o dir o iard storio i safle teithwyr ar gyfer un teulu, gan gynnwys gosod un cartref symudol, un garafán deithiol, bloc toiledau/ystafell ddydd, carthffos a pharcio/goleuadau, Carafán Rose Row, Heol Penderyn, Hirwaun, Aberdâr.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr H. Mochan (Cefnogwr) a Mr P. Baines (Cefnogwr) a oedd wedi gofyn am annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth fanwl ar effaith y datblygiad ar ddiogelwch ar y priffyrdd, a chyngor pellach gan Reolwr Materion Rheoli Datblygu'r Priffyrdd ar anallu'r datblygiad i ddarparu llain welededd addas wrth fynedfa'r datblygiad, **PENDERFYNODD** Aelodau wrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

231 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 11 Chwefror 2019 – 22 Chwefror 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm

**Y Cynghorydd S Rees
Cadeirydd.**